OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 764 (Cy. 166)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Gorffennaf 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *7 Gorffennaf 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983(**1**) ac adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a (d) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**) a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**4**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1983 p. 40; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2005/3238, Atodlen 1, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; a Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 44 ac Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a). Gweler adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, erthygl 2 ac Atodlen 1 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) 2015 dccc 1. Gweler adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

# RHAN 1

## Enwi, cychwyn a chymhwyso

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**2.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Gorffennaf 2022.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Cymhwyso

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn y gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

# RHAN 2

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

### Cyflwyniad

**4.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**5**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiadau i reoliadau 4 i 8

**5.** Yn rheoliad 4(1)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

(**5**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2011/1978 (Cy. 218), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**6.** Yn rheoliad 5(1)—

(a) yn is-baragraff (b)(i), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) yn is-baragraff (c)(i), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**7.** Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) ym mharagraff (3)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**8.** Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) ym mharagraff (3)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**9.** Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,";

(b) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i'r Atodlen

**10.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1, yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;";

(b) ar ôl paragraff 4B mewnosoder—

"**4C.** Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

# RHAN 3

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

### Cyflwyniad

**11.** Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**6**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i reoliad 3

**12.** Yn rheoliad 3(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;".

(**6**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/1192 (Cy. 209), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/1294 (Cy. 328), O.S. 2022/49 (Cy. 18) ac O.S. 2022/79 (Cy. 28).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 6**

**13.** Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (2)(b)—

(i) yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) ym mharagraffau 2, 2A, 3, 4, 4ZA, 4ZB, 4ZC, 5, 6A, 8A, 9A, 9B, 9BA, 9C, 9D, 10A, 11A a 12A o Ran 2 o Atodlen 1, neu";

(ii) yn lle paragraff (ii) rhodder—

"(ii) ym mharagraffau 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 o Ran 2 o Atodlen 1, pan fo paragraff (2A) yn gymwys.";

(b) ar ôl paragraff (10F) mewnosoder—

"(10G) Pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A" yn y paragraff hwn), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws A fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a

(b) ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi yn dechrau, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi dod i ben ac nad oes unrhyw ganiatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei roi,

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 1**

**14.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 4ZB mewnosoder—

"**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**4ZC.** Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Rhl. 14 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

# RHAN 4

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

### Cyflwyniad

**15.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**7**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Rhl. 15 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i reoliad 4

**16.** Yn rheoliad 4(9)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Rhl. 16 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiadau i'r Atodlen

**17.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022";

(b) ar ôl paragraff 4B mewnosoder—

(**7**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

"**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**4C.** Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Rhl. 17 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

# RHAN 5

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

### Cyflwyniad

**18.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**8**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Rhl. 18 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i reoliad 2

**19.** Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Rhl. 19 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

(**8**) O.S. 2017/47 (Cy. 21); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

**Diwygiad i reoliad 4**

**20.** Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4ZB," mewnosoder "4ZC,";

(b) ar ôl paragraff (10E) mewnosoder—

"(10F) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A" yn y paragraff hwn), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir—

(i) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynt o'r cwrs presennol, mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben mewn perthynas ag ef, neu'n gais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig neu gwrs dynodedig arall y mae statws A fel myfyriwr rhan-amser cymwys neu fyfyriwr cymwys wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i'r cwrs presennol; neu

(ii) yn fyfyriwr cymhwysol mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynt o'r cwrs cymhwysol neu o gwrs cymhwysol arall y mae statws A fel myfyriwr cymhwysol wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i'r cwrs cymhwysol y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas ag ef; a

(b) ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi terfynu, ac nad oes unrhyw hawl bellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi,

bydd statws A fel myfyriwr cymwys neu fyfyriwr cymhwysol yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Rhl. 20 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 15**

**21.** Yn rheoliad 15, ar ôl paragraff (bb) mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Rhl. 21 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 23**

**22.** Yn rheoliad 23—

(a) ym mharagraff (12), ar ôl is-baragraff (bb) mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;";

(b) hepgorer paragraff (17).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Rhl. 22 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 26**

**23.** Yn rheoliad 26(1), ar ôl "ar gwrs dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Rhl. 23 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 27**

**24.** Yn rheoliad 27(1), ar ôl "ar gwrs dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Rhl. 24 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 28**

**25.** Yn rheoliad 28(1), ar ôl "ar gwrs dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Rhl. 25 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 49**

**26.** Yn rheoliad 49(2), ar ôl is-baragraff (bb) mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Rhl. 26 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliadau 81 a 82**

**27.** Yn rheoliad 81—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4ZB," mewnosoder "4ZC,";

(b) ar ôl paragraff (10E) mewnosoder—

"(10F) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A" yn y paragraff hwn), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, yn fyfyriwr rhan-amser cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth am flwyddyn gynharach o'r cwrs rhan-amser presennol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig neu gwrs rhan-amser dynodedig arall y mae statws A fel myfyriwr rhan-amser cymwys neu fyfyriwr cymwys wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i'r cwrs rhan-amser presennol; a

(b) ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi dod i ben ac nad oes unrhyw hawl bellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi,

bydd statws A fel myfyriwr rhan-amser cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Rhl. 27 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**28.** Yn rheoliad 82(4), ar ôl is-baragraff (bb) mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Rhl. 28 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 91**

**29.** Yn rheoliad 91(1), ar ôl "ar gwrs rhan-amser dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Rhl. 29 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 92**

**30.** Yn rheoliad 92(1), ar ôl "ar gwrs rhan-amser dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Rhl. 30 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 93**

**31.** Yn rheoliad 93(1), ar ôl "ar gwrs rhan-amser dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Rhl. 31 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliadau 110 a 111**

**32.** Yn rheoliad 110—

(a) ym mharagraff (3)(a)(i), ar ôl "4ZB," mewnosoder "4ZC,";

(b) ar ôl paragraff (12E) mewnosoder—

"(12F) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A" yn y paragraff hwn), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth am flwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs ôl-radd dynodedig arall y mae statws A fel myfyriwr ôl-radd cymwys wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i'r cwrs ôl-radd presennol; a

(b) ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi dod i ben ac nad oes unrhyw hawl bellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi,

bydd statws A fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi."

**33.** Ar ôl rheoliad 111(2)(bb) mewnosoder—

"(bc) y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Rhl. 32 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**I33** Rhl. 33 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 1**

**34.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 4ZB mewnosoder—

"**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**4ZC.** Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** Rhl. 34 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 4**

**35.** Yn Atodlen 4, paragraff 6, ar ôl is-baragraff (ab) mewnosoder—

"(ac) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Rhl. 35 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

## RHAN 6

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

**Cyflwyniad**

**36.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**9**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Rhl. 36 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 9**

**37.** Yn rheoliad 9(1)(a)(i), ar ôl "2ZB," mewnosoder "2ZC,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Rhl. 37 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i reoliad 12**

**38.** Yn rheoliad 12(1), yn lle "23E neu 23F" rhodder "23E, 23F neu 23G".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I38** Rhl. 38 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Mewnosod rheoliad newydd 23G**

**39.** Ar ôl rheoliad 23F mewnosoder—

"**23G.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(**9**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/813 (Cy. 192), O.S. 2021/1365 (Cy. 360) ac O.S. 2022/79 (Cy. 28).

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys oherwydd ei fod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir (gweler Atodlen 2, paragraff 2ZC) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff P aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi."

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I39** Rhl. 39 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i reoliad 69

**40.** Yn rheoliad 69, ym mharagraff (2), hepgorer Eithriad 5.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I40** Rhl. 40 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i reoliad 80

**41.** Yn rheoliad 80—

(a) ym mharagraff (2)(b), ar ôl paragraff (ic) mewnosoder—

"(id) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;";

(b) ym mharagraff (3), yn y lle priodol mewnosoder ""gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*");".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I41** Rhl. 41 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i reoliad 81

**42.** Yn rheoliad 81(3)(b), ar ôl paragraff (ic) mewnosoder—

"(id) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I42** Rhl. 42 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 2**

**43.** Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 2ZB mewnosoder—

"**Categori 2ZC – Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**2ZC.**—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I43** Rhl. 43 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 4**

**44.** Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 4(1)(a)(i), ar ôl "2ZB," mewnosoder "2ZC,";

(b) ar ôl paragraff 13F mewnosoder—

"**13G.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys oherwydd ei fod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir (gweler Atodlen 2, paragraff 2ZC) mewn cysylltiad â chais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, neu

(ii) mewn cysylltiad â chwrs y mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs ôl-radd presennol o dan baragraff 15, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff P aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.";

(c) ym mharagraff 14—

(i) yn is-baragraff (3)(b), ar ôl paragraff (ic) mewnosoder—

"(id) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;";

(ii) yn is-baragraff (4), yn y lle priodol mewnosoder ""gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*");".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I44** Rhl. 44 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 7**

**45.** Yn Atodlen 7, yn Nhabl 16, yn y lle priodol mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| ""gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" | Atodlen 2, paragraff 2ZC(2)" |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** Rhl. 45 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

## RHAN 7

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

**Cyflwyniad**

**46.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**10**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** Rhl. 46 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiadau i reoliadau 2, 3 ac 8**

**47.** Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(**10**) O.S. 2018/656 (Cy. 124); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/1094, O.S. 2019/1192 (Cy. 209), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360) ac O.S. 2022/403 (Cy. 100).

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I47** Rhl. 47 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**48.** Yn rheoliad 3(2)(a), ar ôl "4B," mewnosoder "4C,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I48** Rhl. 48 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**49.** Yn rheoliad 8, ar ôl paragraff (bc) mewnosoder—

"(bd) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I49** Rhl. 49 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 1**

**50.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 4B mewnosoder—

"**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**4C.** Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I50** Rhl. 50 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

# RHAN 8

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

### Cyflwyniad

**51.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**11**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I51** Rhl. 51 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiadau i reoliadau 9 ac 16

**52.** Yn rheoliad 9(1)(a)(i) ar ôl "2B," mewnosoder "2C,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I52** Rhl. 52 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**53.** Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar ôl paragraff (ia) mewnosoder—

"(ib) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;";

(b) ym mharagraff (2), yn y lle priodol mewnosoder ""gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*");".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I53** Rhl. 53 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

### Diwygiad i Atodlen 2

**54.** Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 2B mewnosoder—

"**Categori 2C – Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**2C.**—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(**11**) O.S. 2019/895 (Cy. 161); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2019/1039 (Cy. 182), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/403 (Cy. 100).

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo, neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022, a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I54** Rhl. 54 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

**Diwygiad i Atodlen 4**

**55.** Yn Atodlen 4, yn Nhabl 3, yn y lle priodol mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| ""gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" | Atodlen 2, paragraff 2C(2)" |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I55** Rhl. 55 mewn grym ar 24.7.2022, gweler **rhl. 2**

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

5 Gorffennaf 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

(a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (gweler Rhan 2 o'r Rheoliadau),

(b) Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 (gweler Rhan 3 o'r Rheoliadau),

(c) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 (gweler Rhan 4 o'r Rheoliadau),

(d) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (gweler Rhan 5 o'r Rheoliadau),

(e) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (gweler Rhan 6 o'r Rheoliadau),

(f) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 (gweler Rhan 7 o'r Rheoliadau), ac

(g) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 (gweler Rhan 8 o'r Rheoliadau).

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ymwneud yn bennaf â gwladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teuluoedd y rhoddwyd caniatâd iddynt i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn rhinwedd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin, y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin, y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin neu sydd â chaniatâd y tu allan i'r rheolau mewnfudo mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia ar Wcráin ("gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir").

Mae'r diwygiadau a wneir yn Rhan 2 o'r Rheoliadau yn darparu i wladolion Wcreinaidd a ddiogelir gael eu trin fel myfyrwyr cartref at ddiben Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 i ddarparu i'r terfyn ffioedd dysgu fod yn gymwys i wladolion Wcreinaidd a ddiogelir.

Mae Rhan 3 a Rhannau 5 i 8 yn diwygio'r Rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a bennir drwy wneud gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl ofynion eraill.

Mae Rhannau 5 a 6 hefyd yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau cymorth i fyfyrwyr i ddileu'r cyfyngiad presennol sy'n atal myfyrwyr sy'n dysgu o bell rhag bod yn gymwys i gael grantiau ar gyfer dibynyddion.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022.